HAF 2021

# Gwybodaeth i ganolfannau am adolygiadau canolfan ac apeliadau yn ystod haf 2021

17 Mai 2021 – Fersiwn 1.0

# Gwybodaeth i ganolfannau am adolygiadau canolfan ac apeliadau yn ystod haf 2021

**Cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch cymeradwy a Thystysgrifau Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru**


**1.** Cyflwyniad **2**
**2.** Prosesau adolygu ac apelio mewn canolfannau yn ystod haf 2021 **2**
**3.** Cam 1 – adolygiad gan y ganolfan **3**
**4.** Cam 2 – apelio i CBAC **7**
**5.** Cam 3 – EPRS **9**
**6.** Cymorth i ddysgwyr **9**

## 1. Cyflwyniad

Mae dull amgen eleni o ddyfarnu cymwysterau drwy raddau a bennir gan ganolfannau wedi gofyn am ddull newydd o adolygu ac apelio fel bod proses deg ac ystyrlon i ddysgwyr. Mae'r dull o bennu graddau yn rhoi athrawon, darlithwyr ac arweinwyr ysgolion a cholegau wrth wraidd cyflwyno system a fydd yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen. Mae gan ysgolion a cholegau rôl allweddol i'w chwarae hefyd o ran sicrhau bod pob dysgwr yn gallu manteisio ar brosesau adolygu ac apelio deg eleni.

Mae'r wybodaeth hon yn cefnogi ysgolion a cholegau i ddeall y dull o adolygu ac apelio mewn canolfannau yr haf hwn.

## 2. Y broses apelio yn ystod haf 2021

Fel y rheoleiddiwr, mae Cymwysterau Cymru yn pennu'r gofynion cyffredinol y mae'n rhaid i CBAC eu dilyn wrth gyflawni'r broses apelio. Mae CBAC yn darparu canllawiau manwl ar y gweithdrefnau y mae angen i ysgolion a cholegau eu dilyn ar wahân. Rydym wedi gweithio ar y cyd ac yn helaeth gydag aelodau'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni sydd wedi darparu cyngor manwl ac ystyriol o safbwynt ysgolion a cholegau. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac undebau llafur wrth ddatblygu'r dull hwn. Rydym wedi ceisio cydbwyso'r goblygiadau llwyth gwaith i ysgolion ochr yn ochr â'r angen i ddarparu proses apelio deg ac ystyrlon i ddysgwyr. Rydym hefyd wedi cymryd cyngor cyfreithiol i sicrhau bod y fframwaith a roddwyd ar waith gennym yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac yn darparu cyfiawnder naturiol i ddysgwyr.

Mae tri cham yn y dull eleni.




Rhagfarn a gwahaniaethu

Nid oes unrhyw sail ar wahân i apelio ar sail rhagfarn a gwahaniaethu eleni. Os yw dysgwyr yn pryderu bod rhagfarn a gwahaniaethu wedi effeithio ar y penderfyniad yn ymwneud â'u gradd, dylent apelio ar y sail bod camgymeriad wedi'i wneud wrth benderfynu ar y radd, gan roi'r rhesymau pam maen nhw o'r farn nad yw'r radd yn adlewyrchiad cywir o safon eu gwaith.

## 3. Cam 1 – Adolygiad gan y ganolfan

Pam fod angen adolygiad canolfan

Os yw dysgwr yn nodi bod **camgymeriad wedi'i wneud wrth bennu'r radd** gall ofyn i'w ysgol neu goleg adolygu'r penderfyniad. Rhaid i ddysgwyr nodi'n glir lle maent yn credu bod camgymeriad wedi'i wneud wrth gyflwyno'r adolygiad.

Mae rhesymau da yng nghyd-destun trefniadau eleni pam mae hyn yn bwysig.

Mae graddau'n cael eu pennu gan ysgolion a cholegau gan ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth a fydd yn amrywio o ganolfan i ganolfan. Mae'r radd a bennir gan y ganolfan yn farn sy'n seiliedig ar gydbwysedd o dystiolaeth sy'n dangos lefel cyrhaeddiad y dysgwr.

Fel y prif benderfynwr wrth bennu'r radd, mae angen i'r ysgol neu goleg gael y cyfle i adolygu'r penderfyniad cyn i unrhyw barti allanol chwarae rhan yn y broses apelio.

Canolfannau fydd yn y sefyllfa orau i adolygu'r dystiolaeth a llunio barn ar a yw'r radd yn gywir. Er enghraifft, ar ôl adolygu'r penderfyniad gwreiddiol gallai'r ganolfan ddod i'r casgliad bod dysgwr a enillodd radd D ar gyfer ei TGAU mewn Hanes fod wedi derbyn gradd C, hynny yw, bod camgymeriad wedi'i wneud wrth bennu'r radd wreiddiol.

Os bydd dysgwr yn dymuno symud ymlaen i Gam 2, bydd CBAC yn adolygu rhesymoldeb y dyfarniad academaidd (gweler Cam 2 – adran apelio i CBAC), ond mae cyfyngiadau ar yr hyn y gall y rhan honno o'r broses ei gyflawni eleni a dyna pam mae'r cam adolygiad gan ganolfannau yn bwysig er mwyn sicrhau proses apelio deg ac ystyrlon.

<u>Ffeithiau allweddol am broses adolygu'r ganolfan</u>

- Mae adolygiad y ganolfan yn gyfle i ddysgwyr ofyn am adolygiad lle maen nhw'n ystyried bod camgymeriad wedi'i wneud wrth benderfynu eu gradd – mae'r ffocws ar y radd, nid ar farcio asesiadau unigol. Nid oes disgwyl i ganolfannau ailfarcio asesiadau.
- Dylai dysgwyr egluro'n fyr natur y camgymeriad wrth ofyn am adolygiad canolfan. Bydd CBAC yn darparu templedi i ganolfannau a dysgwyr eu defnyddio.
- Dim ond pan fyddant o'r farn bod y camgymeriad wedi cael effaith sylweddol ar gywirdeb y radd y dylai dysgwyr ofyn am adolygiad.
- Nid yw adolygiad y ganolfan yn gyfle i ddysgwyr geisio gwella graddau a bennwyd yn deg yn unol â phrosesau asesu a sicrhau ansawdd y ganolfan ac a gefnogir gan y dystiolaeth a'r cofnod gwneud penderfyniadau.
- Mae adolygiad y ganolfan yn gyfle i'r ysgol neu'r coleg wirio nad ydyn nhw wedi gwneud unrhyw gamgymeriadau wrth bennu'r radd.
- Gall graddau godi, gostwng neu aros yr un peth ar ôl adolygiad y ganolfan.

<u>Gofyn am adolygiad canolfan</u>

Os yw dysgwr o'r farn y gallai fod camgymeriad wedi'i wneud wrth bennu ei radd, dylai wirio'r cofnod gwneud penderfyniadau. Dim ond os ydynt yn ystyried bod camgymeriad wedi'i wneud y dylai dysgwyr ofyn am adolygiad canolfan. Bydd CBAC yn darparu templedi i gefnogi cysondeb a hydrinedd ar gyfer ysgolion a cholegau ac i gefnogi dysgwyr sy'n gofyn am adolygiad lle maent wedi nodi camgymeriad. Dylai dysgwyr ddefnyddio'r templed i amlinellu yn syml natur y camgymeriad wrth ofyn am adolygiad.

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn a allai fod yn gamgymeriad wrth bennu'r radd.

- Cofnodwyd gradd y dysgwr yn anghywir
- Ni chymerwyd addasiadau rhesymol nac ystyriaethau arbennig i ystyriaeth pan ddylent fod wedi'u hystyried
- Ni ystyriwyd tystiolaeth asesu a oedd yn rhan o'r cynllun asesu
- Nid yw'r radd yn cael ei chefnogi gan y wybodaeth yn y cofnod gwneud penderfyniadau.

<u>Pam mae adolygiad canolfan Cam 1 yn cael ei gynnal cyn diwedd tymor yr haf</u>

Mae'r broses apelio yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau ddarparu eu graddau a bennwyd gan y ganolfan **dros dro** cyn diwedd mis Mehefin ac i gam adolygu'r ganolfan y broses apelio ddigwydd cyn diwedd tymor yr haf.

Gwnaethom ystyried a ddylai adolygiad y ganolfan gael ei gynnal cyn neu ar ôl diwrnod canlyniadau a daethom i'r casgliad y dylid ei gynnal yn nhymor yr haf am y rhesymau a ganlyn.

- **Yr effaith ar les dysgwyr a dilyniant**– rydym am anelu at gymaint o gywirdeb â phosibl mewn graddau a gyhoeddir ar ddiwrnod canlyniadau er mwyn lleihau'r pryder i ddysgwyr ym mis Awst a chyfyngu ar yr oedi mewn penderfyniadau derbyn a all ddigwydd os codir apêl yn dilyn diwrnod canlyniadau. Rydym yn gwybod bod pryderon ynghylch llesiant i ddysgwyr a fydd yn derbyn gradd dros dro ym mis Mehefin cyn i brifysgolion gael cyfle i roi gwybod am benderfyniad cadarnhau sy'n digwydd ar ddiwrnod canlyniadau. Fodd bynnag, mae rhyddhau graddau dros dro yn gynnar yn golygu y gall unrhyw ddysgwyr sy'n parhau i fod yn anfodlon gyda'r radd symud ymlaen yn gyflym i Gam 2 ar neu ar ôl diwrnod y canlyniadau.
- **Yr effaith ar lwyth gwaith ysgolion a cholegau** – byddai cynnal cam adolygu'r ganolfan ar ôl diwrnodau canlyniadau wedi golygu bod angen i ganolfannau gael staff allweddol yn eu lle drwy gydol mis Awst i gefnogi dysgwyr a chynnal yr adolygiadau. Bydd cynnal cam adolygu'r ganolfan yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf hefyd yn helpu canolfannau i gynllunio ar gyfer nifer yr apeliadau Cam 2 tebygol ym mis Awst.

Rhaid cyflwyno pob Gradd Dros Dro a Bennir gan Ganolfan i CBAC erbyn 2 Gorffennaf. Mae'r ffenestr ar gyfer cyflwyno graddau diwygiedig ar agor tan **20 Gorffennaf** i ganiatáu cymaint o amser â phosibl i broses adolygu'r ganolfan ddigwydd. Mae manylion y dyddiadau allweddol ym mhroses adolygu'r ganolfan a'r broses apelio ar gael yng nghanllawiau CBAC.

Pam mae'r cofnod gwneud penderfyniadau yn bwysig

Mae'r cofnod gwneud penderfyniadau yn rhan bwysig o'r trefniadau dyfarnu amgen eleni. Nid yn unig y mae'n golygu bod prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu dogfennu, gan gefnogi tryloywder yn y system, ond mae hefyd yn rhoi mynediad i ddysgwyr at wybodaeth a fydd yn eu helpu i ddeall pam y dyfarnwyd iddynt y graddau ac i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ydynt yn credu bod camgymeriad wedi'i wneud wrth bennu eu gradd.

Dylai cofnod gwneud penderfyniadau roi digon o wybodaeth i ddysgwyr ddeall sut mae'r ysgol neu'r coleg wedi dod i'r penderfyniad am eu gradd, a'r wybodaeth neu'r dystiolaeth a ystyriwyd wrth wneud y penderfyniad hwnnw. Ynghyd â chyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgol neu'r coleg a'r dysgwr, gallai'r cofnod gwneud penderfyniadau helpu i leihau nifer yr adolygiadau y mae dysgwyr yn gofyn amdanynt gan y bydd ganddynt ddealltwriaeth glir o'r rhesymeg dros y radd. Dylai hyn gynorthwyo dysgwyr i ofyn am adolygiadau dim ond pan fyddant o'r farn bod gwall wedi'i wneud yn hytrach nag anghydfod ynghylch dyfarniad y ganolfan.

Bydd y cofnod gwneud penderfyniadau yn cefnogi dealltwriaeth adolygydd y ganolfan o'r rhesymeg y tu ôl i'r radd wreiddiol yng Ngham 1 a bydd hefyd yn sicrhau bod gan adolygydd CBAC ddealltwriaeth o'r rhesymeg dros y radd pe bai'r apêl yn symud ymlaen i Gam 2.

Amserlenni a rhannu tystiolaeth adeg adolygiad y ganolfan

Rhaid rhannu'r cofnod gwneud penderfyniadau gyda'r dysgwr ar gais os yw'n ystyried a gofyn am adolygiad canolfan. Rhaid i ganolfannau ganiatáu 48 awr i ddysgwyr ofyn am y cofnod gwneud penderfyniadau o'r amser y cafodd y dysgwr y radd dros dro.

Yng ngham 1, credwn na fydd angen i'r rhan fwyaf o ddysgwyr weld mwy o wybodaeth na'r cofnod gwneud penderfyniadau er mwyn penderfynu a ydyn nhw'n ystyried bod camgymeriad wedi'i wneud a gofyn am adolygiad. Bydd cyfle i ddysgwyr ofyn am weld y dystiolaeth arall y mae'r ysgol neu'r coleg yn dibynnu arni wrth bennu'r radd cyn penderfynu cyflwyno apêl cam 2 i CBAC os ydyn nhw'n credu bod y gwall yn parhau ar ôl adolygiad y ganolfan. Os nad yw dysgwr yn teimlo y gall wneud penderfyniad ynghylch gofyn am adolygiad canolfan heb weld tystiolaeth ychwanegol, dim ond y dystiolaeth yr oedd y ganolfan yn dibynnu'n uniongyrchol arni wrth bennu'r radd y gall ofyn am ei gweld. Os gwneir cais am dystiolaeth sy'n mynd y tu hwnt i'r dystiolaeth y dibynnir arni wrth bennu'r radd, gall ysgolion a cholegau ei wrthod ar y sail ei fod yn gais afresymol.

Nid oes disgwyl i ganolfannau ail-farcio asesiadau.

Rhaid rhoi 5 diwrnod gwaith i ddysgwyr o'r adeg y maent wedi derbyn yr holl wybodaeth berthnasol i benderfynu a ddylid gofyn am adolygiad canolfan.

Dylai canolfannau ystyried yr amserlenni gofynnol hyn wrth ddatblygu eu dull o weinyddu proses adolygu'r ganolfan a chynllunio sut y byddant yn storio ac yn rhannu'r deunyddiau perthnasol.

Rydym yn bod yn rhagnodol wrth bennu amserlenni gofynnol a darparu tystiolaeth asesu er budd dysgwyr ac i gefnogi ysgolion a cholegau i osgoi herio cyfreithiol ar sail tegwch gweithdrefnol.

Pwy all fod yn rhan o adolygiad y ganolfan

Dylai'r ysgol neu'r coleg benodi aelod o staff nad oedd yn rhan o'r broses o bennu'r radd i oruchwylio proses adolygu'r ganolfan. Fodd bynnag, gall y sawl a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol fod yn rhan o'r broses i wirio a wnaed camgymeriad. Nid oes disgwyl i'r ganolfan ddod o hyd i arbenigwr pwnc annibynnol fel rhan o'r broses.

Data y bydd angen i chi ei gofnodi a'i gyflwyno i CBAC ar adolygiadau canolfannau

Bob blwyddyn rydym yn casglu ystod o ddata ar y gyfres arholiadau fel rhan o'n goruchwyliaeth reoleiddiol o'r holl broses ddyfarnu. Mae'r data hwn yn ein galluogi i fonitro risgiau yn y system, cyhoeddi ystadegau swyddogol, ac ymateb i ymholiadau gan wahanol bartïon â diddordeb, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac aelodau'r Senedd.

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC gasglu data o bob canolfan ar nifer yr adolygiadau canolfan a gynhaliwyd a'r nifer a gadarnhawyd. Bydd CBAC yn cadarnhau am sut a phryd y cesglir y data hwn. Dim ond ar lefel gyfanredol (heb ei rannu yn ôl canolfan) y bydd CBAC yn darparu'r data inni er mwyn i ni oruchwylio'r broses apelio o'r dechrau i'r diwedd.

**Nid ydym yn casglu'r data hwn i fonitro sut mae ysgolion a cholegau yn cynnal eu hadolygiadau canolfan ac ni fyddwn yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth lefel canolfan ar adolygiadau canolfan.**

## 4. Cam 2 – apelio i CBAC

Yn yr adran hon byddwn yn canolbwyntio ar apeliadau Cam 2 a gyflwynir i CBAC ar sail dyfarniad academaidd afresymol. Gellir cyflwyno apeliadau hefyd ar sail weithdrefnol. Mae'n bwysig nodi, a sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol, na ellir cyflwyno apêl Cam 2 ar sail dyfarniad academaidd afresymol oni bai bod adolygiad canolfan Cam 1 wedi'i gwblhau.

Rhaid i ysgolion a cholegau rhoi gwybod i ddysgwyr am eu hawl i ofyn am apêl Cam 2 ar ôl cwblhau'r adolygiad canolfan a rhaid iddynt gyflwyno'r apêl ar ran y dysgwr os gofynnir amdano. Dysgwyr sy'n gyfrifol am amlinellu'r seiliau a'r rhesymau dros ofyn am yr apêl, ond rhaid i'r apêl gael ei chyflwyno i CBAC gan yr ysgol neu'r coleg. Bydd CBAC yn darparu templedi i ddysgwyr eu defnyddio wrth ofyn am yr apêl trwy'r ysgol. Rhaid i'r ysgol neu'r coleg wneud y dysgwr yn ymwybodol y gall y radd godi neu ostwng ar apêl.

Yr hyn a olygwn wrth farn academaidd afresymol yng Ngham 2

Am y rhesymau a nodir yn adran adolygu'r ganolfan, yr ysgol neu goleg sydd yn y sefyllfa orau i adolygu ei phenderfyniad ar radd a gwneud unrhyw gywiriadau lle credant fod camgymeriad wedi'i wneud. Nid yw'r un lefel o benderfyniadau manwl yn bosibl yn apêl Cam 2 a gynhelir gan CBAC. Y rheswm am hyn yw nad oes asesiadau safonedig ac mae'r radd derfynol a bennir gan y ganolfan yn farn gyfannol ar lefel cyrhaeddiad y dysgwr. Ni allai adolygydd CBAC ddiystyru dyfarniad cyfannol canolfan ar y radd gywir ar gyfer y dysgwr oni bai bod dyfarniad academaidd afresymol yn amlwg. Mae adolygwyr CBAC yn annhebygol o allu gwneud penderfyniadau ynghylch a fyddai newid i radd gyfagos (D i C er enghraifft) yn arwain at ddyfarnu gradd fwy cywir. Y ganolfan sydd yn y sefyllfa orau i lunio'r dyfarniadau gorau hynny yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth a gwybodaeth sydd ganddi a aeth i bennu'r radd.

Dim ond os yw ymhell y tu allan i ffiniau barn academaidd resymol ac na all y dystiolaeth gefnogi'r radd a ddyfarnwyd yn rhesymol y caiff gradd a bennir gan ganolfan ei hystyried yn afresymol. Er enghraifft, ni fydd penderfyniad i ddyfarnu gradd B yn afresymol os yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ar gyfer yr apêl o'r farn y byddai'r dystiolaeth yn cefnogi naill ai gradd A neu radd B. Byddai'r ddau yn rhesymol ac felly ni fyddai'r naill na'r llall yn afresymol. Byddai'r dyfarniad yn cael ei ystyried yn afresymol pe bai'n golygu na allai unrhyw ganolfan arall yn yr un sefyllfa, a gweithredu'n rhesymol, fod wedi dod i'r un dyfarniad. Dyna'r safon y disgwyliwn i CBAC ei chymhwyso wrth benderfynu ar adolygiadau ac nid ydym yn rhagweld y bydd nifer sylweddol o newidiadau i raddau yng Ngham 2.

Mae apêl Cam 2 ar sail barn academaidd afresymol yn rhwyd ddiogelwch bwysig i sicrhau tegwch i ddysgwyr sy'n ystyried bod camgymeriad barn sylweddol wedi bod ym mhenderfyniad graddio'r ganolfan neu fod rhagfarn neu wahaniaethu wedi effeithio ar benderfyniad y ganolfan.

## 5. Cam 3 – Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS), Cymwysterau Cymru.

Mae'r EPRS yn adolygiad gweithdrefnol a gynhelir gan Cymwysterau Cymru i weld a yw CBAC wedi cydymffurfio â'i weithdrefnau ei hun a'n gofynion rheoliadol ni wrth ddyfarnu cymhwyster. Bydd yr EPRS eleni yn parhau i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar gydymffurfiaeth CBAC â gofynion rheoliadol a'u gweithdrefnau eu hunain.

**Ni fydd** Cymwysterau Cymru yn adolygu a yw'r ganolfan wedi cydymffurfio â'i pholisïau neu ei gweithdrefnau ei hun neu'r rhai a bennwyd gan CBAC er mwyn iddi ei dilyn. Bydd CBAC yn cynnal y rhan honno o'r broses apelio yng Ngham 2.

**Ni fydd** Cymwysterau Cymru yn adolygu cywirdeb y penderfyniad graddio ac **ni fyddant** yn newid unrhyw raddau.

Os byddwn yn nodi bod CBAC wedi methu â chydymffurfio mewn rhyw ffordd byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC ystyried ein canfyddiadau ac ystyried a yw'r methiant hwnnw'n effeithio ar gywirdeb y radd. Yn ymarferol, bydd yr EPRS ond yn nodi methiannau gweithdrefnol ar ran CBAC ac mae'n annhebygol o arwain at newidiadau mewn penderfyniadau ar farn academaidd o ganlyniad. Bydd rhagor o fanylion am y broses EPRS yn cael eu cyhoeddi ym mis Mehefin.

## 6. Cymorth i ddysgwyr

Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o broses adolygu'r ganolfan a'r broses apelio a sut i gael rhagor o wybodaeth a chymorth os oes angen. Dylai ysgolion a cholegau baratoi i gefnogi dysgwyr yn ystod y cyfnod y maent yn derbyn eu gradd dros dro a bennir gan y ganolfan a hyd at ddiwrnod y canlyniadau. Bydd angen gwybodaeth a chymorth ar rai dysgwyr ar broses adolygu'r ganolfan a'r broses apelio os ydynt yn credu bod eu gradd yn anghywir. Efallai y bydd rhai dysgwyr Safon Uwch yn pryderu y gallai eu gradd dros dro a bennir gan y ganolfan effeithio ar eu mynediad i'r brifysgol. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r gwasanaethau cwnsela, bugeiliol a chymorth lles sydd ar gael yn yr ysgol neu'r coleg.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am wasanaethau cymorth allanol ar ein gwefan.